



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Cymraeg

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

2023-2024



Llunio ein
Llesiant
i'r Dyfodol

Meddwl Think **Cymraeg Welsh**



Tegwch a Chynhwysiant
Equity & Inclusion



Shaping Our Future
Workforce

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Adroddiad Blynyddol y Gymraeg
2022-2023

Cynnwys

Cyflwyniad Llywodraethu a Strwythur 3	Adeiladu diwylliant dwyieithog 4	Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg 9
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 11	Safonau Gweithredu 14	Recriwtio 14
Pryderon ynghylch y Gymraeg 15	Sgiliau Cymraeg Staff 16	Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2023- 2024 17

Cyflwyniad

Ar 30 Mai 2019, daeth Mesur y Gymraeg (2011) i rym gan osod dyletswyddau deddfwriaethol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran y Gymraeg. Mae'r gofynion penodol y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gydymffurfio â hwy, a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar gael yma. Fel y nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio, rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaeth i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd sydd wedi nodi bod yn well ganddynt siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu ystod o wasanaethau i'w staff drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae stori'r Gymraeg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn unigryw. Yn ôl ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru, wrth ystyried canran y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg, roedd Caerdydd yn yr 8^{fed} safle, gyda 28% o'r boblogaeth breswyl yn siarad yr iaith. Roedd Bro Morgannwg yn y 19^{eg} safle, gyda 18.5% o'r bobl sy'n byw yn yr ardal yn siaradwyr Cymraeg. Wrth ystyried nifer wirioneddol y rhai sy'n siarad Cymraeg, Caerdydd sydd ar frig y rhestr gyda 102,000 o bobl, sy'n uwch nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru. Mae gan Fro Morgannwg 18,000 o siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu eu bod yn y 18^{fed} safle yng Nghymru.¹

Llywodraethu a Strwythur

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb corfforaethol dros Safonau'r Gymraeg, ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant yn gyfrifol ar lefel y Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Sefydliadol, Lles a Diwylliant ochr yn ochr â'r Uwch-reolwr Tegwch a Chynhwysiant yn darparu arweinyddiaeth strategol.

Mae Swyddog y Gymraeg, sy'n gweithio o fewn Tîm Tegwch a Chynhwysiant y Bwrdd Iechyd, yn gyfrifol am y Safonau o ddydd i ddydd ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y Safonau a materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r BIP yn derbyn sicrwydd bod ei wasanaethau yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg drwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Ymdrinnir â'r cwynion a dderbynnir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac ymatebir iddynt drwy ddefnyddio dwy broses. Ymdrinnir â'r holl bryderon ynghylch gofal cleifion a phrofiad cleifion drwy'r broses Gweithio i Wella, a weinyddir gan dîm pryderon y Bwrdd Iechyd. Ymdrinnir yn uniongyrchol â phryderon yn ymwneud â chydymffurfio mewn meysydd corfforaethol gan Swyddog y Gymraeg. Mae proses y pryderon corfforaethol ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

¹ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol - <https://stats.wales.gov.wales>

Adeiladu diwylliant dwyieithog

Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn chwarae rhan arwyddocaol wrth gefnogi agenda'r Gymraeg.



Mae'n gwneud hyn drwy hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog, cynnig hyfforddiant staff, a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod themâu trawsbynciol rhwng yr iaith Gymraeg a thegwch a chynhwysiant. Cydnabyddir bod cysylltiad rhwng y Gymraeg ac oedran neu iechyd meddwl, er enghraifft cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael diagnosis o ddementia.

Trwy integreiddio'r Gymraeg i'r cynllun cyffredinol, mae'n meithrin amgylchedd

cynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ieithyddol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Diwrnodau Ymwybyddiaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddefnyddio diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Trwy nodi diwrnodau megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru, a Diwrnod Shw'mae, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i heffaith gadarnhaol ar ofal cleifion.

Meddwl Think Cymraeg Welsh

Ar Ddydd Santes Dwynwen, amlygodd y Bwrdd Iechyd angerdd ac ymrwymiad ei staff tuag at y Gymraeg. Mae'r pwyslais ar y Gymraeg yn arf hanfodol ar gyfer meithrin cysylltiadau cymunedol a gwella gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd Diwrnod Shw'mae, a ddathlwyd ar 15 Hydref, yn ddiwrnod pwrpasol ar gyfer annog y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn amgylcheddau gofal iechyd. Pwysleisiodd y Bwrdd Iechyd bwysigrwydd cyfarch cleifion yn eu dewis iaith, a all gyfrannu at eu llesiant a'u hadferiad cyffredinol. Roedd mentrau'n cynnwys hybu sesiynau datblygu sgiliau Cymraeg a darparu deunyddiau i annog aelodau o staff i gyfarch cleifion yn Gymraeg.

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru trwy greu rhestr chwarae Spotify gyda'r nod o ennyn hiraeth ac atgofion cadarnhaol ymhlith unigolion sy'n byw gyda dementia. Roedd y rhestr chwarae yn cynnwys ystod amrywiol o gerddoriaeth Gymraeg, o alawon gwerin traddodiadol i artistiaid cyfoes.

Roedd Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle i'r Bwrdd Iechyd arddangos ymroddiad y staff i'r Gymraeg a'u hymrwymiad i warchod treftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cynwysoldeb iaith mewn gofal iechyd.

Diwrnodau Gyrfaoedd Cymraeg

Ym mis Mehefin 2023, cymerodd y Tîm Tegwch, Cynhwysiant a'r Gymraeg ran yn y digwyddiad Diwrnod Gyrfaoedd Cymraeg a gynhaliwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Roedd y digwyddiad hwn, a anelwyd at fyfyrwyr ysgolion uwchradd, yn llwyfan i amlygu manteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac annog myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.



Ymunodd sefydliadau lleol eraill â'r Bwrdd Iechyd i drafod manteision hyfedredd yn y Gymraeg mewn gwahanol feysydd gyrfa. Er mwyn darparu mewnwelediad uniongyrchol, gwahoddwyd aelodau o staff, gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen Lleoli Graddedigion y GIG, i siarad â'r myfyrwyr. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da gan yr ysgolion a fynychodd, gan ddangos diddordeb brwd y myfyrwyr mewn deall pwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn lleoliad gofal iechyd.

Cardiau Annog

Yn 2022-2023, datblygodd y Bwrdd Iechyd y cerdyn annog ymadroddion Cymraeg i gynorthwyo staff i ateb pob galwad gan gleifion a'r cyhoedd yn Gymraeg. Roeddent yn cynnwys rhai ymadroddion Cymraeg syml i staff eu defnyddio wrth ateb y ffôn. Bu'r cardiau'n boblogaidd gyda'r staff, a chafodd dros fil o gopïau eu hargraffu a'u dosbarthu ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd. Nod y cardiau annog yw helpu staff i ateb ac ymdrin â galwadau yn ddwyieithog a chefnogi cydymffurfiaeth â Safon 17 a 18 y Safonau.



Yn dilyn llwyddiant y llynedd, gyda dros 1,000 wedi eu dosbarthu ar draws y Bwrdd Iechyd, archebwyd 2,500 o gopïau pellach ar gyfer 2023/2024. Mae'r cardiau annog ar gael i staff drwy'r wefan SharePoint Gymraeg.

Datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu

Yn ystod 2023-2024, datblygodd y Bwrdd Iechyd berthynas gydweithredol agosach â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Dysgu Cymraeg Caerdydd. Trwy gydweithio'n agosach â'r sefydliadau hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn gwella ei allu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ein staff. Yn ei dro, bydd hyn yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r strategaeth genedlaethol Mwy na geiriau sy'n anelu at wella argaeledd ac ansawdd gofal iechyd Cymraeg ledled Cymru.

Mae rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael yn cynnwys cyrsiau Cymraeg Gwaith, cwrs magu hyder, a rhaglenni preswyl a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Mae'r cyfleoedd hyn i gyd wedi'u cynllunio i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol ac i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ein gweledigaeth i fod yn sefydliad lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Cyrsiau 'Meithrin Hyder'

Mae datblygiad y cwrs Meithrin Hyder wedi bod yn gam enfawr i'r Bwrdd Iechyd o ran gwella ein gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae yna staff o fewn ein gweithlu sydd â sgiliau Cymraeg da ond yn aml heb yr hyder i'w defnyddio yn y gweithle. Mae'r cwrs Meithrin Hyder yn darparu sesiynau un-i-un wedi'u teilwra i unigolion gyda thiwtor o Dysgu Cymraeg Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r sesiynau'n ystyried profiadau a heriau unigol, ac yn anelu at ddileu'r rhwystrau a all fodoli i bobl ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith. Mae'r cwrs yn annog pobl i ddefnyddio pa bynnag sgiliau Cymraeg sydd ganddynt wrth siarad â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu gydweithwyr. Ategir y sesiynau un-i-un gan sesiynau grŵp lle gwahoddir siaradwyr ar draws y Bwrdd Iechyd o bob lefel i ymuno a defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt.

Dechreuodd y garfan gyntaf ar gyfer 'Meithrin Hyder' ym mis Chwefror 2024 ac mae wedi cael derbyniad da gan bawb a gymerodd ran. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i hyrwyddo'r cwrs a monitro cynnydd a chanlyniadau'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae Mat Thomas, un o'r cyfranogwyr, wedi myfyrio ar ei brofiad o'r cwrs:

Mae'r sesiynau wedi fy helpu i ailgysylltu â'r Gymraeg roeddwn i wedi'i dysgu yn blentyn ond wedi'i cholli fel oedolyn i'r pwynt rydw i nawr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn y gweithle. Mae wedi fy ngalluogi i gamu'n ôl ac edrych ar rai o'r rhwystrau roeddwn i wedi bod yn eu profi o'r blaen wrth ddysgu Cymraeg. Mae hyblygrwydd i aildrefnu sesiynau o fewn adran brysur wedi bod yn amhrisiadwy.

Dwi'n teimlo llawer mwy hyderus yn siarad Cymraeg ac yn treulio llai o amser yn poeni am y pethau bach fel newid rhwng Cymraeg a Saesneg pan dwi'n anghofio bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg.



Yr wythnosau diwethaf dwi wedi darganfod rhan o fy Nghymraeg wnes i anghofio amdani, gyda help Nia Percy, fy nhwitor anhygoel, dwi wedi darganfod fy Nghymraeg mewnol a gollais flynyddoedd yn ôl. Mae'r cwrs hwn yn golygu cymaint i mi am ei fod wedi fy ngalluogi i ailgysylltu â'm treftadaeth a'r iaith Gymraeg.

Gan fy mod yn niwroamrywiol, roedd Nia yn diwtor perffaith i mi, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod Nia wedi bod yn rhan enfawr o'r canlyniad cadarnhaol yr wyf wedi'i brofi, mae mor bwysig, pan fydd tiwtoriaid yn cael eu paru, eu bod wedi'u harfogi'n dda i allu cefnogi mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion y dysgwyr, felly mae'n rhaid i mi ddweud 'diolch yn fawr Nia' am wneud hyn yn un o'r pethau gorau yr wyf wedi'i ychwanegu at fy mywyd ers amser maith a byddaf bob amser yn ddiolchgar am dy gefnogaeth.

Cyrsiau Cymraeg Gwaith

Hyrwyddodd y Bwrdd Iechyd Argaeledd Gwersi Cymraeg ar-lein i staff a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cwrs yn dysgu ymadroddion Cymraeg syml i groesawu cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae staff wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfle, gyda 35 o bobl wedi cofrestru i ddilyn y cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod 2023-2024.

Cyrsiau Preswyl yn Nant Gwrtheyrn

Roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn hyrwyddo argaeledd cyrsiau preswyl wedi'u hariannu'n llawn yn Nant Gwrtheyrn. Mae'r cwrs yn gwrs dwys wythnos o hyd lle mae pobl yn dysgu Cymraeg ochr yn ochr â siaradwyr o lefel debyg.

Siaradodd Sarah James o Darlun Meddygol am ei hamser ar gyrsiau preswyl Nant Gwrtheyrn

"Profiad da iawn...roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus erbyn diwedd yr wythnos. Dw i ddim wedi siarad cymaint o Gymraeg ers bod yn yr ysgol. Gwnaethom gyfarfod am frechwast, cinio a chymdeithasu yn y nos. Roedd yn teimlo'n naturiol oherwydd ein bod yn cyfarch ein gilydd yn Gymraeg, yn hytrach nag yn Saesneg, yn gyntaf."

Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus nawr. Hoffwn nawr gwrdd â phobl eraill mewn grŵp anffurfiol i ymarfer. Dw i'n darllen mwy yn Gymraeg, yn gwrando ar fwy o bodlediadau ac ar y radio a'r teledu"

Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn Ardal Caerdydd a'r Fro

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gefnogi Cyngor Dinas Caerdydd i gyflawni Strategaeth 'Caerdydd Ddwieithog', i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas.


Fforwm Caerdydd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gymryd rhan weithredol yn Fforwm Cymraeg Caerdydd a Bro Morgannwg. Trwy'r fforwm, mae'r Bwrdd Iechyd wedi meithrin perthynas gydweithredol â sefydliadau a mentrau allweddol eraill yn y rhanbarth, gan gynnwys Menter Iaith Caerdydd a Menter y Fro (Menter Iaith Bro Morgannwg). Mae'r partneriaethau hyn wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i gydweithio ar brosiectau arwyddocaol, megis cynhadledd y Gymraeg mewn Gyrfaoedd i fyfyrwyr.

Rhwyd-iaith

Ers ei sefydlu dros flwyddyn yn ôl, mae Rhwyd-iaith wedi profi twf sylweddol, ac mae bellach yn cynnwys 73 o aelodau gyda chynnydd cyson bob wythnos. Mae ein sianel Teams bywiog yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer rhannu gwybodaeth a diweddariadau yn ymwneud â digwyddiadau Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd a rhanbarth ehangach Caerdydd a'r Fro. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau am glybiau sgwrsio, cardiau annog ar gyfer cynorthwyo staff gyda sgysiau ffôn Cymraeg, a diwrnodau ymwybyddiaeth megis "Diwrnod Shw'mae."

Mae'r sianel Teams hefyd yn hwyluso mentrau recriwtio gwirfoddolwyr, cyfranogiad mewn digwyddiadau allanol, a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gyfrannu at dreialon, megis y system ESR newydd. Cynigwyd y cyfle i aelodau Rhwyd-iaith gymryd rhan yn y



Rhwyd-iaith

garfan gyntaf o'r cwrs 'Meithrin Hyder' a ddarperir gan Brifysgol Caerdydd. Yn ogystal, mae gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn wedi ei rannu gydag aelodau, gan arwain at nifer yn manteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn.

Mae Pwyllgor Rhwyd-iaith yn cael ei ffurfio ar hyn o bryd, gyda dwy rôl eisoes wedi'u llenwi. Roedd cyfarfod diweddar yn canolbwyntio ar drafod cyfeiriad a blaenoriaethau'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol dros y flwyddyn i ddod. Y nod yw cwblhau sefydlu'r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn, gan drosglwyddo arweinyddiaeth i'r aelodau.

Cafodd y Bwrdd Iechyd eu cydnabod am eu gwaith yn sefydlu Rhwyd-iaith yng Ngwobrau HPMa Cymru 2024 pan gyflwynwyd

Gwobr y Gymraeg iddynt. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r Bwrdd Iechyd ennill y wobwr hon.



Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Uwch Gyfieithwyr Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu effeithiol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Dros 2023-2024, cyfieithodd y tîm bron i 1.4 miliwn o eiriau, gan gynnwys ystod eang o ddogfennau megis Adroddiad Blyneddol y Gymraeg ac Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.


Fel y dangosir isod, mae'r tîm wedi cynyddu nifer y geiriau a gyfieithwyd yn

ystod y cyfnod 2023-2024 o gymharu â 2022-2023.

Mae'r tîm wedi gwella gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn sylweddol drwy ddarparu cymorth amhrisiadwy i staff. Mae eu hymdrechion i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn rhwydd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth wedi cael ei werthfawrogi'n eang gan gydweithwyr.



Nifer y geiriau a gyfieithwyd gan yr Uned Gyfieithu fesul blwyddyn




Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio gyda Caerdydd Ddwyeithog, y gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a reolir gan Gyngor Dinas Caerdydd, yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth sydd ar waith, i ddarparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i'r Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2023-2024 cyfieithodd Caerdydd Ddwyeithog dros 1.4 miliwn o eiriau ar gyfer y Bwrdd Iechyd; ar ôl cyfieithu ychydig dros 3 miliwn o eiriau ers 2019.



Cyfanswm y geiriau a gyfieithwyd gan Caerdydd Ddwyeithog



Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Llysgenhadon y Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio Llysgenhadon y Gymraeg yn llwyddiannus fel rhan o'r rhaglen Llysgenhadon Cynhwysiant ar gyfer Aelodau Gweithredol a Bwrdd, yn ogystal â Byrddau Clinigol, gan gynnwys Plant a Menywod, Iechyd Meddwl, Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Diagnosteg Glinigol a Therapiau. Mae'r Llysgenhadon yn cymryd rôl lle maent yn hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg yn eu hardaloedd lleol, yn helpu i weithredu'r Safonau, yn dathlu llwyddiant ac yn adrodd am unrhyw heriau a wynebir.



Cynnydd gan y Byrddau Clinigol

Mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant wedi bod yn cydweithio â Byrddau Clinigol i wella'r defnydd o'r Gymraeg tra'n cynnal gwasanaethau cleifion a chyhoeddus effeithiol. Mae ffocws allweddol wedi bod ar annog staff i gofrestru eu sgiliau Cymraeg. Er mwyn symleiddio'r broses hon, mae'r Byrddau Clinigol wedi datblygu ffurflen hawdd ei defnyddio sy'n symleiddio'r broses o gofrestru sgiliau ac yn

integreiddio gwybodaeth yn ddi-dor i'r Cofnod Staff Electronig.

Mae meysydd rheng flaen wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i wella gwasanaethau Cymraeg:

- Sicrhau bod yr holl wybodaeth am gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Dosbarthu a hyrwyddo'r defnydd o fathodynau "Iaith Gwaith" a "Dysgwr" i ddangos hyfedredd staff a'u dysgu yn y Gymraeg.
- Annog staff i ddefnyddio llofnodion a negeseuon allan o'r swyddfa Cymraeg.
- Defnyddio ymadroddion Cymraeg wrth ateb galwadau a chyfarach ymwelwyr.
- Cydweithio â byrddau iechyd eraill ledled Cymru drwy grwpiau rhwydwaith i gyfnewid arferion gorau a syniadau.

Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) wedi bod yn hyrwyddo iechyd a diogelwch trwy amryw adnoddau dwyieithog. Mewn cydweithrediad ag Anabledd Dysgu Cymru, maent wedi cynhyrchu taflen wybodaeth tramadol a chanllaw cynhwysfawr ar feddyginiaethau didrwydded yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae eu hymdrechion hefyd yn cynnwys animeiddiad addysgol ar iechyd yr ysgyfaint, cerdyn profedigaeth i rieni sy'n galaru, a'r llyfryn 'Cam wrth Gam' i gleifion ffisiotherapi, gan sicrhau hygyrchedd i siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae CEDAR yn gwella cyfranogiad cleifion trwy gyfieithu mesurau canlyniadau i'r Gymraeg gydag adborth cymunedol, tra

bod y tîm Therapi Iaith a Lleferydd wedi creu fideo i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.


CEDAR - Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae CEDAR wedi parhau i gyfieithu holiaduron PROMs (Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion), fel rhan o'n gwaith gyda [Chanolfan Gwerth mewn Iechyd GIG Cymru](#) i ddarparu Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ledled y wlad. Cyfieithwyd deg PROM yn drylwyr gan ddefnyddio [egwyddorion ISPOR](#), sy'n cynnwys blaen-gyfieithu, cysoni, ôl-gyfieithu a dilysu gyda chleifion. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda dros 50 o gleifion fel rhan o'r gwaith hwn. Er mwyn parhau â'r gwaith hwn, rydym wedi datblygu [cronfa ddata gwirfoddolwyr](#) newydd i gynnal cyfweiliadau yn y dyfodol, ac mae gwaith wedi parhau i hysbysebu'r gronfa ddata ar-lein, mewn papurau newydd ac mewn posteri. Yn ogystal, mae CEDAR wedi cyfieithu [diweddariad newydd o holiadur cenedlaethol PREM \(Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion\)](#), darn o waith y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdano. Dilynwyd egwyddorion ISPOR eto ar gyfer y gwaith hwn, gan gyfweld 10 claf er mwyn ei gwblhau.

Yn ystod y flwyddyn mae CEDAR hefyd wedi darparu gwasanaethau Cymraeg i gyfranogwyr Cymraeg eu hiaith ar draws nifer o brosiectau gwerthuso ac ymchwil lleol a chenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys darparu dogfennau Cymraeg, gan gynnwys holiaduron, a chynnal cyfweiliadau Cymraeg.

Yn dilyn cyflogi Cydlynnydd y Gymraeg newydd yn gynnar yn 2023, mae CEDAR hefyd wedi dechrau datblygu polisi Cymraeg mewnol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion polisi'r Bwrdd Iechyd a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys dadansoddi bylchau i benderfynu pa ddogfennau sydd angen eu cyfieithu a phryd, pa wasanaethau eraill megis cyfweiliadau a grwpiau ffocws sydd eu hangen fel rhan o brosiectau ymchwil, a hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol yn adran CEDAR.

Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Ar hyn o bryd mae gan wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) dros 11,000 o dudalennau gwe. Ym mis Awst 2023, gwnaeth y tîm Cyfathrebu alluogi proses gymeradwyo ar gyfer cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd sydd â mynediad i'r wefan CMS Mura, lle mae tudalennau gwe newydd neu ddiwygiadau i dudalennau yn cael eu cymeradwyo gan y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu cyn mynd yn fyw ar y wefan gyhoeddus.

Mae'r newid hwn wedi golygu bod pob tudalen newydd ers mis Awst 2023 wedi bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Os bydd cydweithwyr yn cyflwyno tudalen we newydd neu ddiwygiadau i dudalen nad ydynt yn cyfateb i'r Gymraeg, bydd y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu

yn cysylltu â'r unigolyn i'w hysbysu o'r gofynion a'r diwygiadau sydd eu hangen yn y Gymraeg cyn y gellir cymeradwyo'r dudalen hon a mynd yn fyw, neu gynnig cymorth hyfforddiant gwefan ychwanegol i'r unigolyn.

Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i hysbysu cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd am Safonau a gofynion y Gymraeg.

Mae gan y tîm rota wythnosol ar gyfer cymeradwyo a diwygio'r Gymraeg ar y wefan, a chyfarfodydd rheolaidd i drafod y cynnydd, unrhyw broblemau, ac i nodi cydweithwyr y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i ddiweddarau eu tudalennau gwe er mwyn cydymffurfio.

Oherwydd bod nifer fawr o dudalennau gwe yn cael eu hychwanegu at y wefan cyn i'r broses gymeradwyo fod yn ei lle, mae gan y tîm log o dudalennau blaenorol nad ydynt yn cydymffurfio i'w diwygio. Mae'r tîm yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiwygio'r rhain, gan ddefnyddio Google Analytics i ganfod faint o bobl sydd wedi edrych ar y dudalen, i helpu i flaenoriaethu pa dudalennau gwe i'w diwygio'n gyntaf.

Mae'r tîm Cyfathrebu hefyd wedi datblygu adnoddau hyfforddi gan gynnwys tiwtorialau fideo ar ychwanegu cynnwys at y wefan a chanllawiau hyfforddi, sydd hefyd yn amlygu gofynion y Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth cydweithwyr. Mae'r tîm Cyfathrebu hefyd wedi ychwanegu 'Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg' fel troedyn sy'n ymddangos ar bob tudalen ar draws y wefan.

Mae'r tîm yn gyfrifol am yr holl gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn sicrhau bod pob postiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac nad ydynt yn postio cynnwys heb fersiwn Gymraeg.

Ar gyfer cyfathrebu mewnol gyda chydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r tîm hefyd wedi hyrwyddo cyrsiau iaith Gymraeg amrywiol gyda staff ac yn gweithio'n agos gyda'r timau Tegwch a Chynhwysiant a Rheolaeth Gorfforaethol i gael gwybod am fentrau newydd y gallwn eu cefnogi a rhoi sylw iddynt.

Archwilio gwasanaethau trwy Tendable

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi Tendable ar waith, sef system arolygu ac archwilio symudol a gynlluniwyd i addysgu a grymuso staff rheng flaen i wella ansawdd mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r system wedi cynnal dau archwiliad yn llwyddiannus i asesu cydymffurfiaeth meysydd rheng flaen â Safonau'r Gymraeg.

Datgelodd yr archwiliadau fod meysydd yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r safonau drwy ddarparu arwyddion dwyieithog, holi ynghylch dewis iaith cleifion, a darparu gwasanaethau yn Gymraeg pan ofynnir amdanynt. Roedd adborth cadarnhaol o'r archwiliadau yn cynnwys canmoliaeth am "gyfathrebu rhagorol" ymhlith staff sy'n siarad Cymraeg a'r arfer o gofnodi dewis iaith cleifion mewn Cynlluniau Gofal Theatr.

Fodd bynnag, nododd yr archwiliadau hefyd feysydd i'w gwella o ran sicrhau cydymffurfiaeth gyson â Safonau'r Gymraeg. Bydd Tendable yn allweddol i roi trosolwg cynhwysfawr i'r Bwrdd Iechyd o gydymffurfiaeth ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gynnal ymchwiliadau pellach a rhoi strategaethau ar waith i gryfhau cydymffurfiaeth rheng flaen â'r safonau.

Safonau Gweithredu

Ymgyrch Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod aelodau staff yn cofrestru eu sgiliau Cymraeg. Mewn cydweithrediad â'r Tîm Dadansoddi Pobl, mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant wedi datblygu system effeithlon i staff gofnodi eu gallu ieithyddol.

Crëwyd Ffurflen Microsoft hawdd ei defnyddio, gan alluogi'r holl staff i fewnbynnu eu sgiliau Cymraeg yn hawdd. Yna trosglwyddir y data hwn yn ddi-dor i Gofnod Staff Electronig y GIG.

Er bod y broses yn dal yn ei chamau cynnar ym mis Ebrill 2024, gyda 37% o staff wedi cofrestru eu sgiliau, disgwylir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu'n sylweddol drwy gydol 2024-2025.

SharePoint

Mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant wedi bod yn ddiwyd yn diweddarau gwefan SharePoint gyda gwybodaeth gynhwysfawr yn y Gymraeg. Drwy gydol 2023-2024, mae'r tîm wedi ehangu'n sylweddol yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan, gan gwmpasu canllawiau a phwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Un ychwanegiad nodedig yw tudalen bwrpasol sy'n cynnwys straeon cleifion

a theuluoedd sy'n amlygu arwyddocâd y Gymraeg wrth ddarparu gofal iechyd effeithiol. Mae gwefan SharePoint bellach yn ganolbwynt ar gyfer y newyddion diweddaraf, digwyddiadau, a datblygiadau yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Recriwtio

(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2023-2024 a'r math o sgiliau Cymraeg y gofynnwyd amdanynt:

BIP Caerdydd a'r Fro 2023-2024	
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel a ganlyn:	
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	3
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	2487
Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg pan gewch eich penodi i'r swydd	0
Nid oes angen sgiliau Cymraeg	49
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd	2539



Pryderon ynghylch y Gymraeg

(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddwy system gwyno ffurfiol i ymdrin â chwynion a phryderon mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r system bryderon 'Gweithio i Wella' yn delio â phryderon ynghylch gofal cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Tîm Pryderon yn cysylltu'n agos â'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant i sicrhau bod unrhyw bryderon mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu rheoli'n briodol. Derbyniodd Tîm Profiad y Claf un gŵyn ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg gan aelodau'r cyhoedd yn ystod cyfnod adrodd 2023-2024.

Mae proses pryderon corfforaethol ar wahân ar gael ar gyfer pryderon anghlinigol a chorfforaethol. Mae copi o'r broses ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd dri phryder drwy'r llwybr hwn yn ystod 2023-2024. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gefnogaeth frwd i Gomisiynydd y Gymraeg i ymchwilio i bedwar Ymchwiliad Gorfodi Safonau a gychwynnwyd yn ystod y cyfnod 2023-2024. Er bod un o'r materion hyn wedi'i ddatrys, mae tri yn parhau.

Un o'r pryderon allweddol, a maes ffocws i'r Bwrdd Iechyd dros y flwyddyn

i ddod, oedd sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu dros y ffôn ac yn y derbynfydd. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei brosesau recriwtio o ran sgiliau iaith Gymraeg ac wedi gweithio gyda thimau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd dysgu Cymraeg sydd ar gael i staff. Nod y camau hyn yw grymuso rheolwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd effeithiol yn Gymraeg.




Sgiliau Cymraeg Staff

(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am nifer y staff wnaeth gofrestru eu sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2024:

Gwrando/Siarad Cymraeg	Cyfrif pennau
0 - No Skills / Dim Sgiliau	4624
1 - Entry/ Mynediad	997
2 - Foundation / Sylfaen	242
3 - Intermediate / Canolradd	153
4 - Higher / Uwch	192
5 - Proficiency / Hyfedredd	303
Not Assessed	11351
Grand Total	17862



- 2 - Foundation / Sylfaen 1.36%
- 3 - Intermediate / Canolradd 0.89%
- 4 - Higher / Uwch 1.11%
- 5 - Proficiency / Hyfedredd 1.73%



Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2023-2024

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i'w weledigaeth o fod yn fan lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r weledigaeth hon yn hanfodol ar gyfer meithrin cyfathrebu cynhwysol a diwylliannol sensitif gyda chleifion a'r gymuned ehangach. Trwy flaenoriaethu dwyieithrwydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at ddarparu gofal eithriadol, parchu treftadaeth ieithyddol Cymru, a chreu ymdeimlad o berthyn i bawb y mae'n eu gwasanaethu.

Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran cydymffurfio â'r Gymraeg a dathlu diwylliant, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen am ddatblygiadau pellach. Mae'r ymgyrch "Meddwl Cymraeg - Think Welsh" wedi chwarae rhan hanfodol wrth feithrin newid diwylliannol drwy bwysleisio pwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg. Mae llwyddiant yr ymgyrch wedi annog staff i integreiddio'r Gymraeg wrth ryngweithio yn y gweithle.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi integreiddio agenda'r Gymraeg yn strategol i'w strategaeth sefydliadol, megis y Cynllun Pobl a Diwylliant a'r Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at gryfhau ei ddiwylliant a'i wasanaethau dwyieithog. Mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol ar gyfer 2024-2025:

- Gwella cofrestriad sgiliau Cymraeg yn y system Cofnod Staff Electronig.
- Integreiddio asesu sgiliau iaith Gymraeg i weithdrefnau recriwtio i sicrhau cyfathrebu dwyieithog effeithiol.
- Gwella argaeledd gwasanaethau derbynfa Cymraeg.
- Parhau i weithio gyda Byrddau Clinigol i wella gwasanaethau Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Datblygu a darparu rhagor o gyfleoedd dysgu Cymraeg i staff.
- Parhau i ddatblygu Rhwyd-iaith.